# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MERCHER, 6 EBRILL 2016 AM 3.30 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) a oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | J E C Harris |
| C E Lloyd | J A Raynor | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Benjamin | Prif Swyddog Dros Dro, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Kathryn Boyle | Cydlynydd Grantiau |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| Paul Relf | Swyddog Ewropeaidd |

### 37 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A S Lewis a C Richards.

### 38 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

Y Cynghorydd J E C Harris - Rhif Cofnod 40 - Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol - Personol fel Cadeirydd y Fforwm Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhif Cofnod 41 - Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (04 – Eglwys Gymunedol Bont Elim) – yn hysbys i'r Cynghorydd a (07 - Partneriaeth Pontarddulais) - Rhagfarnol - Cadeirydd Partneriaeth Pontarddulais gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

Y Cynghorydd C E Lloyd - Rhif Cofnod 41 - Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (03 - Eglwys St Thomas - Cloc a 05 Cymdeithas Fowls Abertawe - Personol - yn hysbys i'r cynghorydd.

Y Cynghorydd J A Raynor - Rhif Cofnod 40 - Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol - Personol fel aelod o'r fforwm Magu Plant Corfforaethol ac yn Rhagfarnol - Aelod o'r Panel Craffu a oedd wedi argymell cymhwyso'r arian ar gyfer y swydd.

Y Cynghorydd R C Stewart - Rhif Cofnod 41 - Cronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (06 – Cymdeithas Fowls Coed Gwilym) – Personol - yn hysbys i'r ymgeisydd.

## 39 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016 fel cofnod cywir.

## 40 TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM ARIAN EWROPEAIDD AC ALLANOL.

Roedd Prif Swyddog Dros Dro'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran arian Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Peilot Therapi Grŵp i Arddegwyr sy'n Derbyn ac yn Gadael Gofal y mae perygl y bydd eu plant eu hunain yn dod yn Blant sy'n derbyn Gofal (PDG).

Ymddiheurodd am y diofalwch o ran peidio â derbyn caniatâd gan y Panel Ariannu Allanol cyn cyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru (LlC).

Gofynnwyd i'r panel dderbyn y cynnig ariannu a gynigiwyd gan LlC am fenter therapiwtig i dorri'r cylch cenedliadol o PDG yn dod yn rhiant ifanc sy'n aml yn cael plant sy'n dod yn PDG.

Byddai'r arian yn cefnogi Prosiect Peilot 3 blynedd, â'r bwriad o leihau cenedlaethau'r dyfodol o deuluoedd sydd eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd sy'n dod yn PDG, ynghyd â gwella canlyniadau i'n plant sy'n gadael gofal.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr arian fel y'i nodwyd yn y Llythyr Cynnig Grant gan Lywodraeth Cymru.

## 41 CRONFA TRAWSNEWID GWEITHREDU YN Y GYMUNED.

Dechreuodd y cadeirydd drwy egluro nad oedd y ceisiadau a oedd yn cael eu hystyried gan y Panel heddiw wedi'u hystyried na'u cymeradwyo gan y Panel cyn y cyfarfod, fel yr awgrymwyd mewn erthygl a gyhoeddwyd gan bapur newydd lleol.

Cyflwynodd Cydlynydd y Trydydd Sector adroddiad ynghylch ceisiadau ar gyfer pedwaredd rownd ariannu'r Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned. Cafodd cefndir y Gronfa a'r egwyddorion sy'n sail iddi, ynghyd â'r meini prawf y dylai ceisiadau eu bodloni a'r hyn y gellid eu defnyddio ar ei gyfer, eu manylu yn yr adroddiad.

Nododd aelodau y derbyniwyd 7 cais erbyn y dyddiad cau ar gyfer pedwaredd rownd y gronfa ar 4 Mawrth 2016 fel a ganlyn:

1. Cymdeithas Bowls Cymunedol Parc Williams

2. Cymdeithas Fowls Beaufort

3. Cloc Eglwys St Thomas

4. Eglwys Gymunedol Bont Elim

5. Cymdeithas Fowls Dinas a Sir Abertawe

6. Cymdeithas Fowls Coed Gwilym

7. Partneriaeth Pontarddulais

Trafododd grynodeb y ceisiadau a fanylwyd yn Atodiad A ac Atodiadau B1 i B7.

Trafododd aelodau'r ceisiadau gan ofyn cwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn unol â hyn.

**CYTUNODD** y Panel y dylid:

1. **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Bowls Cymunedol Parc Williams, sef swm o £24,277.

2. **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Fowls Beaufort, sef swm o £15,000.

3. **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Eglwys St Thomas, sef swm o £2,155.

4. **GWRTHOD** y cais a gyflwynwyd gan Eglwys Gymunedol Bont Elim.

5. **CYMERADWYO'R** cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Fowls Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y swm o £37,000 - cytunwyd hefyd y gellir rhoi'r cyfle i'r grŵp gyflwyno cais arall i'r gronfa yn y dyfodol. Dyfarnwyd arian cynnal a chadw am flwyddyn yn hytrach na'r tair blynedd y gofynnwyd amdano, fodd bynnag mae'r Panel yn sylweddoli y gallai fod angen mwy o gefnogaeth i gynnal a chadw tair lawnt fowls yn unol â'r cais na grwpiau ymgeisio sy'n cynnal un lawnt.

6. Cymeradwyo'r cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Fowls Coed Gwilym, sef swm o £2,010. Ystyrir hefyd unrhyw ofynion o dan ddeddfwriaeth gynllunio ar gyfer y cynhwysydd storio.

7. **GWRTHOD** y cais a gyflwynwyd gan Bartneriaeth Pontarddulais.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm

**CADEIRYDD**